Ysgol Brynrefail

Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD

Pennaeth/Headteacher:
Mr Arwyn Williams, BA
☎(01286) 672381
(01286) 672066
✉ swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk
www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

6ed o Fawrth 2018

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae 20 o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn Gweithdy Addysg Drwy Ddrama, sef Cyfiawnder mewn Diwrnod 2018. Bydd y gweithdy yn rhoi gwell syniad i bobl ifanc am y ffordd mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio mewn ffordd rhyngweithiol a diddorol.

Bydd y gweithdy yma yn digwydd yn Y Baracs, Ffordd Llanberis, Caernarfon ar Fawrth 13eg, gan ddechrau am 9.30am a gorffen am 2.30pm. Bydd yr ysgol yn trefnu cludiant i Gaernarfon ac yn ôl.

A wnewch chi sicrhau bod gan eich plentyn gôt ac esgidiau addas ar y diwrnod gan y byddant yn cerdded o'r Baracs i'r Llys ar gyfer rhan o'r Gweithdy. Byddant hefyd angen pecyn bwyd ar gyfer amser cinio.

A fuasech yn arwyddo isod i roi caniatâd i'ch plentyn fynychu'r gweithdy a dychwelyd y bonyn i'r ysgol i Mrs Nia Williams, Pennaeth Blwyddyn 8 neu Ms Sam Jones, Pennaeth Blwyddyn 9.

Yn gywir,

Gwenno Bebb
Dirprwy Bennaeth

✂----------

Rwy'n rhoi caniatad i fy mhlentyn fynychu gweithdy Cyfiawnder Mewn Diwrnod.

Enw'r plentyn: _____ Dosbarth _____

Llofnod rhiant/gwarcheidwad: _____